Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Y Sgêr
# Canolfan Blant Corneli
# Teras Greenfield
# Gogledd Corneli
# Pen-y-bont ar Ogwr
# CF33 4LW

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2016**

**gan**

**Nicholas Jones**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/06/2016**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Y Sgêr, sydd wedi ei leoli yng Nghanolfan Blant Corneli, yn awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae ar agor am bum dydd yr wythnos ac mae ganddo chwech ymarferwr llawn amser.

Mae cofrestriad y lleoliad yn caniatáu iddo gymryd hyd at 30 o blant mewn sesiwn. Mae'n derbyn plant dwy a thair blwydd oed. Ar adeg yr arolwg, mynychodd 10 o blant, pob un ohonynt wedi eu hariannu gan yr awdurdod lleol yn dair blwydd oed. Mae Dechrau'n Deg yn ariannu nifer o blant iau yn y lleoliad.

Mae bron pob un o'r plant o darddiad gwyn Prydeinig ac nid oes un plentyn yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinydd ei swydd ym mis Hydref 1996. Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Mai 2015. Arolygodd Estyn y lleoliad ddiwethaf ym mis Mehefin 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- cynnydd cadarn gan blant ym mhob maes dysgu
- agweddau cadarnhaol gan blant tuag at dasgau
- ymddygiad cyfrifol gan blant, dan do ac yn yr awyr agored
- profiadau dysgu wedi'u cynllunio'n dda
- addysgu ysgogol yn canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen
- cymorth a gofal effeithiol
- adnoddau pwrpasol
- defnydd rheolaidd o'r Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar sut mae'r plant yn dysgu'r iaith
- perthnasau cadarnhaol rhwng oedolion a phlant

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- darpariaeth bwrpasol a chyfeiriad clir i waith y lleoliad gan yr arweinydd a'r dirprwy arweinydd
- systemau hunanarfarnu synhwyrol sy'n gywir ar y cyfan
- agweddau cadarnhaol a gweithredol gan ymarferwyr tuag at ddatblygiad a hyfforddiant
- defnydd effeithiol o wasanaethau cymorth yr awdurdod lleol
- gwaith ymrwymiedig gan y pwyllgor rheoli gweithgar a chefnogol

## Argymhellion

A1 Mireinio'r cynllunio o dasgau ffocws i herio plant yn ôl eu galluoedd

A2 Defnyddio asesiadau dyddiol i dargedu'r camau nesaf yn dysgu plant unigol

A3 Mireinio'r broses ar gyfer nodi meysydd i'w gwella

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob plentyn yn gwneud cynnydd cadarnhaol o'u mannau cychwyn erbyn diwedd eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn gwneud gwelliannau buddiol wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd. Mae bron pob plentyn yn trafod syniadau gyda phlant eraill ac oedolion yn hyderus ac maent yn gwrando'n ofalus ar ei gilydd. Er enghraifft, mae pob plentyn yn trafod y tywydd yn bwrpasol a'r offer sydd angen i baratoi llysiau ffres yn y gegin fwd. Maent hefyd yn cynnig awgrymiadau synhwyrol wrth drafod eu cyfrifoldebau mewn grwpiau a pharau. Mae hyn yn amlwg wrth ddefnyddio twmffatiau a sgwpiau i arllwys a chasglu dŵr a swigod yn y rhwydwaith o diwb a phibellau sydd ynghlwm â'r adeilad.

Mae bron pob plentyn yn eistedd yn dawel ac yn gwrando'n astud ar storïau a ddarllenir iddynt yn ddyddiol. Maent yn ymuno'n frwdfrydig wrth drafod y straeon hyn ac wrth ganu caneuon a hwiangerddi. Mae llawer yn awyddus i ateb cwestiynau am yr hyn maent yn ei wneud. Mae'r mwyafrif o blant yn dewis edrych ar lyfrau’n annibynnol ac mae'r plant hyn yn dal llyfrau'n gywir ac yn trafod y cynnwys yn synhwyrol, gan gynnwys cymeriadau a digwyddiadau yn y stori. Mae bron pob un o'r plant yn gwybod beth i'w wneud pan rhoddir cyfarwyddiadau yn y Gymraeg ac mae'r lleiafrif o blant yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigymell.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol trwy wneud marciau gan ddefnyddio sialc a byrddau du, dŵr, paent a brwsys. Mae ychydig o blant yn dechrau ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau gyda chefnogaeth mewn ffurfiau adnabyddus, wrth drin pensiliau a chreonau. Mae ychydig yn dechrau chwarae ddarllen eu gwaith eu hunain a gwaith eraill, sy'n dangos dealltwriaeth ddatblygiadol o bwrpas ysgrifennu.

Mae bron pob plentyn yn datblygu medrau rhifedd cadarn. Mae llawer o blant yn cyfrif, adnabod ac enwi rhifau hyd at 10 yn hyderus ac ychydig iawn yn cyfrif hyd at 20 gyda dealltwriaeth bod y rhain yn rhifau mwy. Mae bron pob plentyn yn defnyddio ystod dda o iaith fathemategol gyda'i gilydd wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn disgrifio bwcedi o dywod fel 'gwag' a 'llawn' a gwahanol ddeunyddiau fel 'hir' a 'byr' wrth wasgu, rholio, tynnu ac ymestyn toes. Maent hefyd yn defnyddio rhifau yn ymarferol ac yn llwyddiannus wrth drafod 'llai na' a 'mwy na' wrth ddidoli siapiau ac 'i fyny' ac 'i lawr' wrth ddringo offer mawr yn yr awyr agored. Mae llawer o blant yn cymharu siapiau dau a thri-dimensiwn yn bwrpasol gan ddefnyddio detholiad o flociau magnetig.

Mae bron pob plentyn yn grwpio gwahanol fathau o wrthrychau'n gywir yn ôl lliw, maint a siâp. Mae hyn yn cynnwys defnyddio chwyddwydrau, ysbienddrychau, ffanau lliw a photiau arsylwi yn yr ardal allanol a thrwy ymchwilio i wahaniaethau rhwng detholiad o wrthrychau naturiol gan gynnwys conau, cregyn a phren.

Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio'r cyfrifiadur ac offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) eraill yn effeithiol a hyderus, fel llechen electronig yn yr ystafell dawel, teganau electronig a chamerâu i astudio lliw eu gwallt a'u llygaid i greu graff darluniadol.

**Lles: Da**

Mae pob plentyn yn ddysgwyr hapus a hyderus. Mae bron pob un ohonynt yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n iach, mewn perthynas â'u hoed. Mae bron pob plentyn yn golchi eu dwylo'n drylwyr cyn bwyta eu byrbrydau ac yfed llaeth a dŵr. Maent yn gwneud hynny heb lawer o anogaeth. Mae bron pob plentyn yn deall yn glir bod deiet iach yn cynnwys ffrwythau a llysiau a bod ymarfer corff yn eich cadw chi'n heini. Maent yn deall bod eu calonnau'n curo'n gyflymach ar ôl gyrru beiciau'n frochus yn yr ardal allanol.

Mae bron pob plentyn ag agwedd dda tuag at ddysgu. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn yr holl brofiadau a gynigir iddynt, dan do ac yn yr awyr agored. Mae bron pob un plentyn yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac i ymarferwyr. Maent yn ymddwyn yn dda. Maent yn cymryd rhan yn llawn yn yr holl weithgareddau ac yn canolbwyntio a dyfalbarhau am gyfnodau sylweddol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud penderfyniadau synhwyrol ar gyfer eu hunain, sy'n cynnwys gwisgo a thynnu eu cotiau'n annibynnol.

Mae bron pob plentyn yn uniaethu â'i gilydd ac oedolion ac ymwelwyr. Maent yn gwrtais ac yn ystyriol o anghenion pobl eraill a rhannu adnoddau yn wirfoddol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn awgrymu syniadau ynglŷn â beth a sut byddant yn dysgu trwy drafodaethau gyda'r ymarferwyr a thrwy gynllunio gweithgareddau wythnosol. O ganlyniad, mae bron pob plentyn yn dangos lefelau cadarn o gymhelliant, ymgysylltu a chanolbwyntio.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu ystod eang o weithgareddau diddorol ar gyfer plant ar draws pob maes dysgu. Mae'r cynllunio yn bodloni athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol ac mae'n broses drwyadl. Mae'r ymarferwyr yn trafod yn rheolaidd sut i gynllunio'r cwricwlwm ac maent yn paratoi gweithgareddau'n ddyddiol. Mae'r cwricwlwm yn gyffredinol yn adeiladu'n dda ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol y plant. Fodd bynnag, nid yw'r tasgau a gynlluniwyd bob amser yn deillio'n gywir o asesiadau i dargedu'r camau nesaf yn dysgu plant unigol.

Mae'r cynllunio yn effeithio ar anghenion y rhan fwyaf o blant yn synhwyrol, yn enwedig tasgau sydd wedi eu paratoi ar gyfer dibenion parhaus a chyfoethogi. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio o dasgau ffocws bob amser yn herio pob plentyn yn unol â'u galluoedd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd, cyfathrebu a rhifedd y plant yn gydlynol. Mae'n mwyhau profiadau dysgu plant yn llwyddiannus. Mae tasgau ysgrifennu cynnar a gweithgareddau mathemateg y pen yn ysgogi plant yn dda.

Maent yn effeithio ar safonau'n dda ym mhob maes dysgu. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh yn gryf ac mae'r cyfleoedd i ddefnyddio fflachlampau, cyfrifiadur, llechen electronig ac offer technolegol eraill yn werth chweil ac yn ymwneud yn uniongyrchol at gynllunio tasgau ffocws. Mae'r holl oedolion yn cyfathrebu'n llwyddiannus gyda phlant yn y Gymraeg.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dan do ac awyr agored yn ddychmygus i annog plant i arbrofi â phrofiadau newydd, sy'n datblygu eu medrau meddwl annibynnol yn effeithiol. Er enghraifft, trwy beintio, arbrofi gyda thoes, adeiladu cestyll tywod a chwarae rôl yn y caffi dan do a'r ardal gwisgo lan. Mae'r lleoliad yn defnyddio'r ardal lawr estyll yn yr awyr agored yn ddychmygus fel ffau sy'n cynnwys detholiad o offerynnau cerdd. Mae ymarferwyr yn caniatáu i blant i symud yn rhydd rhwng y tu mewn a'r ardal awyr agored, sy'n annog gwneud penderfyniadau annibynnol yn bwrpasol.

Mae plant yn ymweld â lleoedd tu allan i'r lleoliad fel y swyddfa bost, y pentref er mwyn arsylwi ar waith y swyddog diogelwch y ffyrdd, yr archfarchnad leol, y siop caledwedd, bwytai cludfwyd, yr ysgol gyfagos ac ardaloedd coetir. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'r gweithgareddau rheolaidd hyn yn bwrpasol, gan ddarparu'r plant â chyfleoedd buddiol i ddysgu am eu cymuned eu hunain. Mae'r plant hefyd yn dysgu'n dda oddi wrth bobl sy'n ymweld â'r lleoliad, fel y gwasanaeth tân sy'n mynychu gyda'r injan dân, y postmon, nyrs, swyddog cyswllt yr heddlu, hylenydd deintyddol, swyddogion ailgylchu ac arbenigwyr gydag anifeiliaid egsotig.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd cadarn i blant ddatblygu eu hunaniaeth bersonol a diwylliannol. Maent yn dathlu ac yn dysgu'n llwyddiannus am wyliau Cymreig fel Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen. Maent hefyd yn ymchwilio ac yn trafod yn frwdfrydig am ddiwylliannau eraill, fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, Diwali a Holi.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr holl ymarferwyr y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad plant ac maent yn wybodus o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer yr holl blant ac maent yn herio plant yn gyson yn y rhan fwyaf o weithgareddau. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr wedi sicrhau cydbwysedd synhwyrol rhwng gweithgareddau a gychwynnir gan blant a arweinir gan oedolion. Maent yn ymyrryd yn bwrpasol mewn chwarae a gweithgareddau plant i ysgogi a chymell y plant. Mae'r holl ymarferwyr yn gadarnhaol wrth i'r plant gyrraedd ac maent yn parhau gyda'r brwdfrydedd hwn trwy gydol y sesiwn.

Mae'r system o rannu dyletswyddau yn sefydlog ac yn effeithlon. Mae'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol ac yn rhannu gwybodaeth am blant yn rheolaidd. Mae'r holl ymarferwyr yn weithgar ac yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd eang a diddorol i blant ddysgu trwy chwarae a gweithgareddau ymarferol.

Mae'r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn gadarnhaol, yn ddiogel ac yn effeithiol. Maent yn fodelau iaith brwdfrydig eu hunain ac yn darparu amgylchedd cyffrous y tu mewn a'r tu allan i'r adeilad, sy'n cynnwys ystafell dawel, synhwyraidd ar gyfer tasgau ffocws. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad plant yn

llwyddiannus yn yr holl weithgareddau. Maent yn defnyddio cwestiynu effeithiol i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu plant. Un agwedd gadarnhaol yw parodrwydd ymarferwyr i gael y plant i werthfawrogi eu gwaith eu hunain a gwaith plant eraill yn rheolaidd. Mae'r lleoliad yn arddangos gwaith y plant yn effeithiol i hybu eu hyder ac i hybu balchder yn eu gwaith.

Mae'r ymarferwyr yn cynnwys plant wrth asesu eu dysgu eu hunain ac yn trafod yn synhwyrol gyda phlant hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith yn ystod tasgau. Mae'r dirprwy arweinydd yn defnyddio profion diagnostig effeithiol i dargedu anghenion plant penodol. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn asesu y camau nesaf yn dysgu plant yn dda. Fodd bynnag, nid yw asesiadau dyddiol bob amser yn targedu'r camau nesaf yn dysgu plant unigol gyda digon o drylwyredd. Mae'r ymarferwyr yn cofnodi arsylwadau ac asesiadau'n ddiwyd i fesur cynnydd plant o fannau cychwyn sydd wedi eu hen sefydlu.

Mae pob ymarferwr yn cwblhau cofnodion personol plant yn gydwybodol ac mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn dda am gyflawniadau eu plant. Mae'r wybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw adeg drwy bolisi drws agored effeithiol y lleoliad.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad a lles cyffredinol y plant ac yn cefnogi eu dysgu'n effeithiol. Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn defnyddio pypedau'n synhwyrol i ganolbwyntio ar foesau unigolyn ac i ystyried teimladau ei gilydd. Felly, maent yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn llwyddiannus.

Mae cyfleoedd gwerth chweil ar gael i blant i fyfyrio, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo bob dydd. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt gymryd eu tro'n gwrtais wrth fwyta byrbrydau ac yfed llaeth a dŵr o amgylch y bwrdd bwyta. Maent yn paratoi y byrddau'n synhwyrol gyda phlatiau a chwpanau a chynorthwyo ei gilydd yn dda wrth weini byrbrydau a diodydd. Mae gan y lleoliad drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant i ailgylchu papur, cardfwrdd, plastig a bwyd. Mae hyn yn dechrau ddatblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Mae plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion yn y lleoliad ac maent yn aml yn gofyn am gymorth a chefnogaeth. Mae gan yr holl ymarferwyr gymwysterau a phrofiad addas ac mae'r gymhareb oedolion i blant yn ffafriol iawn. Mae arbenigedd ymarferwyr yn cael ei ddefnyddio'n dda wrth addysgu a goruchwylio gweithgareddau. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal da o blant pan fyddant yn cyrraedd a phan fyddant yn cael eu casglu.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn dda pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Mae'r dirprwy arweinydd yn defnyddio profion diagnostig effeithiol i dargedu anghenion plant yn gywir. Mae'r lleoliad yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd a nodi mannau cychwyn y plant yn y lleoliad yn arbennig o drylwyr. Felly, mae'r lleoliad yn targedu plant yn dda gyda chymorth ychwanegol. Mae'r ymarferwyr yn trafod y rhain gydag asiantaethau priodol pan fydd yr angen yn codi. Y dirprwy arweinydd yw'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol ac mae hi'n gyfarwydd iawn â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r holl feysydd dysgu ac offer. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod. Mae pob plentyn yn cymryd rhan mewn cwricwlwm diddorol ac amrywiol y tu mewn i'r adeilad ac yn yr awyr agored. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos cadarnhaol trwy ei weithgareddau dyddiol a thrwy'r dulliau a ddefnyddir gan ymarferwyr. Mae pawb yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae ymarferwyr yn defnyddio doliau, pypedau a straeon penodol o bedwar ban byd ac am wahanol ddiwylliannau i gyflawni hyn yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau yn bwrpasol y tu mewn i'r adeilad ac yn yr ardal allanol i gwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae plant yn cael eu hannog yn gyson i symud yn rhydd o amgylch y meysydd dysgu ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd i bob plentyn, sy'n hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn dda. Mae gweithgareddau parhaus, tasgau ffocws a chyfleoedd i gyfoethogi dysgu yn rhannu adnoddau’n effeithiol.

Mae'r lleoliad yn tyfu planhigion mewn potiau ac ardaloedd tyfu, sy'n dysgu plant am dyfiant planhigion yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn trefnu ei adnoddau yn yr awyr agored yn effeithlon ac yn cylchdroi'n synhwyrol profiadau i gyd-fynd â'r tasgau a gynllunnir. Mae'r adeilad o ansawdd addas, yn ddiogel ac mewn cyflwr da.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd ymdeimlad cadarnhaol o bwrpas, sy'n hyrwyddo ac yn cynnal gwelliannau yn y lleoliad. Mae hi'n rheoli'r addysgu a'r dysgu'n dda, ac mae ei disgwyliadau'n uchel. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn gydlynus fel tîm. Maent yn defnyddio arweiniad asiantaethau allanol fel yr awdurdod lleol yn synhwyrol. Mae'r arfer hwn yn sicrhau'r defnydd gorau o arbenigedd ymarferwyr ac mae'n herio ymarferwyr i wella mewn ffyrdd cadarnhaol, synhwyrol a chefnogol. Mae'r pwyllgor rheoli yn arfarnu ac yn monitro arferion rheolaeth y lleoliad yn rheolaidd ac yn drwyadl. Mae ei rôl wedi datblygu'n dda ac mae ei arferion yn effeithiol. Mae'r grŵp bach o bobl ar y pwyllgor yn gefnogol ac mae eu gwaith yn herio'r lleoliad i wella ymhellach.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cynllunio'n bwrpasol er mwyn darparu profiadau diddorol i'r plant. Mae'r perthnasau gyda phlant, rhieni a gofalwyr a'r pwyllgor rheoli yn gadarnhaol. Mae'r arweinydd yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad yn gyson ac mae ganddi ffocws cynaliadwy ar sicrhau cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r lleoliad. Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen ddefnyddiol. Ceir blaenoriaethau clir ar gyfer gwella eu nodi trwy weithdrefnau hunanarfarnu rheolaidd, sydd yn gyffredinol gywir. Mae prosesau da ar waith i sicrhau bod adnoddau ar gael er mwyn cyrraedd targedau'r cynllun datblygu.

Mae'r ymarferwyr yn derbyn hyfforddiant perthnasol ac effeithiol, sy'n cael effaith gref ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod deilliannau bron pob un o'r plant yn dda. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn gweithredu'r polisïau a'r mentrau'n effeithlon, gan gynnwys y rhai sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel darparu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r fframwaith llythrennedd a rhifedd.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn treiddio trwy holl waith y lleoliad. Mae'r hunanarfarniad yn rhoi ystyriaeth i farn rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a'r gymuned ehangach. Mae hyn yn fanteisiol i ddatblygiad y lleoliad. Mae'r pwyllgor rheoli a'r arweinydd yn dangos yn glir sut y maent wedi gwella'r ddarpariaeth dros amser, drwy fabwysiadu strategaethau gwahanol a derbyn cyngor gwerthfawr gan eraill. Mae hyn yn cynnwys defnyddio profion diagnostig i dargedu anghenion plant yn dda.

Mae'r holl ymarferwyr yn wybodus am waith cyfredol y lleoliad. Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli wedi sefydlu gweithdrefnau cyson i fonitro safonau'r plant a'r ddarpariaeth. Mae gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol o ddydd i ddydd yn cyflawni hyn. Mae'r arweinydd yn sicrhau ansawdd gwaith y lleoliad yn gydwybodol ac mae'r ymarferwyr eraill yn rhannu eu syniadau gyda hi yn synhwyrol. Mae'r pwyllgor rheoli'n defnyddio cyllid yn effeithlon ar gyfer adnoddau a chymarebau staffio yn effeithlon iawn.

Mae'r meysydd i'w datblygu yn cael eu cydnabod yn dda fel yr angen i gynnwys medrau llythrennedd a rhifedd yn y cynllunio. Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli'n cymryd camau i gynnal arfer effeithiol a gweithredu newidiadau'n llwyddiannus. Mae canfyddiadau'r hunanarfarniad i hyrwyddo gwelliannau'n cysylltu'n dda â'r targedau yn y cynllun datblygu yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae anghysondebau mewn nifer fach iawn o ardaloedd.

Mae ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac yn barod i arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o weithio. Er enghraifft, maent wedi mabwysiadu'r model cenedlaethol ar gyfer nodi man cychwyn pob plentyn. Mae'r ymarferwyr yn agored iawn i syniadau newydd, a awgrymwyd gan athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn gweithio'n strategol gyda phartneriaid i wella darpariaeth a safonau a lles plant. Mae hyn yn arbennig o amlwg drwy bartneriaeth fuddiol y lleoliad gyda'r awdurdod lleol a'r defnydd o'r Mudiad Meithrin ar gyfer polisïau a chefnogaeth weinyddol. Mae'r berthynas gadarnhaol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol yn herio arweinwyr a'r pwyllgor rheoli'n synhwyrol er mwyn gwella gwaith y lleoliad.

Mae partneriaeth y lleoliad gyda dosbarth meithrin yr ysgol yn llwyddiannus. Mae'r lleoliad yn defnyddio cysylltiadau cymunedol yn effeithiol i gefnogi dysgu'r plant, sy'n cynnwys defnydd effeithiol o'r gymuned leol ac ystod eang o ymwelwyr i'r lleoliad. Mae asiantaethau allanol yn cefnogi'r lleoliad gyda hyfforddiant, er enghraifft hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, mentrau Cyfnod Sylfaen a chyrsiau diogelu. Mae hyn yn gwella ymwybyddiaeth yr ymarferwyr o faterion pwysig a pherthnasol wrth ddelio â phlant ifanc.

Mae ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae'r lleoliad yn rhoi gwybod i rieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd o waith y lleoliad. Maen nhw'n cael eu hannog i gynnig eu barn eu hunain ar faterion i wella'r lleoliad. Mae'r lleoliad yn gweithredu arnynt i sicrhau bod datblygiadau yn effeithiol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinyddiaeth yn gryf ac mae'n ceisio gwella pob agwedd o waith y lleoliad yn barhaus. Mae'n galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus. Mae'r cynllunio strategol yn cefnogi darpariaeth effeithiol o'r holl ymarferwyr.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli'n llwyddo i sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwysedig gyda hyfforddiant priodol. Mae hyn yn agwedd gadarnhaol iawn. Mae arweinwyr yn defnyddio cyllid yn dda i flaenoriaethu cymhareb uchel o ymarferwyr, sydd i gyd â rolau penodol. Mae'r lleoliad yn gymuned ddysgu gref, sydd â diwylliant o gydweithredu rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill sy'n ymwneud â'r lleoliad. Mae hyn yn cynnwys cysylltiadau cryf gyda thîm ymgynghorol yr awdurdod lleol. Mae systemau rheoli perfformiad yn drylwyr ac yn arwain at well addysgu.

Mae'r lleoliad yn rheoli ei adnoddau yn bwrpasol i gefnogi dysgu ac i greu gwelliannau yn y lleoliad. Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli dealltwriaeth glir o'r gyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol â'u camau arfaethedig ar gyfer gwella'n effeithiol. Mae'r lleoliad yn sicrhau bod y defnydd o arian yn cael effaith uniongyrchol ar gyflawniadau a lles plant. Mae'r lleoliad yn darparu'r safonau gorau posibl ynglŷn â'r adeilad ac adnoddau o fewn ei gyllideb.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian oherwydd deilliannau llwyddiannus y plant, darpariaeth effeithiol yr ymarferwyr a'r arweinyddiaeth bwrpasol.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr Arolygydd Cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.  (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg.  Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |